# Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

**2013 dccc 1**

## RHAN 2

SAFONAU

## PENNOD 1

YMYRRYD YM MATERION RHEDEG YSGOLION A GYNHELIR

*Ymyrraeth gan awdurdod lleol*

### 8 Pŵer awdurdod lleol i atal dros dro yr hawl i gael cyllideb ddirprwyedig

(1) Mae'r adran hon yn gymwys—

(a) os oes gan awdurdod lleol bwer i ymyrryd ym materion rhedeg ysgol a gynhelir, a

(b) os oes gan yr ysgol gyllideb ddirprwyedig o fewn ystyr Rhan 2 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

(2) Caiff yr awdurdod lleol atal dros dro hawl y corff llywodraethu i gael cyllideb ddirprwyedig drwy roi i'r corff llywodraethu hysbysiad am yr ataliad dros dro.

(3) Mae'r ataliad dros dro ar yr hawl i gael cyllideb ddirprwyedig yn dod yn weithredol o'r adeg y bydd y corff llywodraethu'n cael yr hysbysiad.

(4) Os yw'r awdurdod lleol yn rhoi hysbysiad yn atal dros dro yr hawl i gael cyllideb ddirprwyedig, rhaid iddo roi copi o'r hysbysiad i'r pennaeth yr un pryd.

(5) Mae ataliad dros dro sy'n cael ei osod o dan yr adran hon yn cael effaith at ddibenion Pennod 4 o Ran 2 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (ariannu ysgolion

a gynhelir) fel petai wedi ei wneud o dan baragraff 1 o Atodlen 15 i'r Ddeddf honno (atal dros dro ddirprwyiad ariannol).